

Symudedd a Sefydlu (*Habilitation*) Datblygu annibyniaeth i blant gyda nam golwg

'...the overriding goal is to maximise the child or young person's independence, opening the way in the future, to further study, employment and an independent life.'
(Wall, 2017)

Beth yw Symudedd a Sefydlu (*Habilitation*)?

Symudedd a Sefydlu (*Habilitation*) yw datblygu annibyniaeth ac ennill sgiliau newydd ar sail anghenion yr unigolyn.

Mae'r hyfforddiant yn cynnwys **Symudedd, Cyfeiriadedd a Sgiliau Byw yn Annibynnol (ILS)**. Caiff sgiliau cymdeithasol hefyd eu datblygu. Bydd y sgiliau hyn yn paratoi'r plentyn/person ifanc gyda nam golwg, ar gyfer bywyd fel oedolyn ac annibyniaeth, drwy gynllun unigol.

Symudedd

Symud o gwmpas yn ddiogel: yn dibynnu ar yr unigolyn, gall hyn gynnwys: symudiadau cynnar, sgiliau motor, ymwybyddiaeth o'r corff, tywysydd sy'n gweld, sgiliau cyn-ffon, sgiliau ffon hir a symudedd cadair olwyn. Y nod yw symud yn ddiogel dan do ac yn yr awyr agored.



Cyfeiriadedd

Strategaethau i gael gwybod lle maent, a sut i gyrraedd lle maent eisiau bod. Gallai hyn olygu defnyddio cliwiau a chiwiau fel arogleuon, synau a thirnodau. Gallai hefyd olygu eu bod yn ymgyswrtio â'r ystafell ddosbarth neu ddefnyddio dyfeisiadau technoleg i gynorthwyo llywio'r symud. Teithio'n ddiogel yn yr awyr agored ac mae croesi'r ffordd hefyd yn rhan o hyn.



Sgiliau Byw'n Annibynnol (ILS)

Sgiliau ymarferol bob dydd fel:

Sgiliau'r gegin, hylendid, rheoli arian, glanhau, gofyn am gymorth, sgiliau cymdeithasol a sgiliau siopa.



Pam Symudedd a Sefydlu (*Habilitation*)?

Gall nifer o brofiadau dysgu ddigwydd yn ddamweiniol drwy sylwi, mae hyn yn bennaf drwy weld.

Mae 80% o'r wybodaeth yr ydym wedi ei dysgu drwy weld, felly i blentyn gyda graddau nam golwg amrywiol, mae dysgu yn ddamweiniol yn llai tebygol o ddigwydd.

Y Swyddog Symudedd a Sefydlu Cymwys

Bydd y Swyddog Symudedd a Sefydlu yn asesu, cynllunio, gweithredu ac yn monitro, a chreu rhaglen i bob disgybl unigol.

Unigolion pwysig yn eu hyfforddiant yw: Athrawon, Athro Cymwys ar gyfer rhai gyda nam golwg (QTVI), Cynorthwyyr Cymorth Dysgu, Cyfoedion, Gweithwyr Iechyd Proffesiynol a Rhieni.

Gall Cynorthwyyr Cymorth Dysgu a'r rhai sy'n gweithio gyda'r plentyn yn ddyddiol fod wedi derbyn hyfforddiant i atgyfnerthu sgiliau'r disgybl bob dydd.

Trosglwyddiadau

Agwedd hanfodol Cymhwysiad yw paratoi disgyblion ar gyfer cyfnodau trosiannol megis:

- ★ Trosglwyddo o'r cartref i ysgol gynradd
- ★ Trosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd
- ★ Trosglwyddo o'r ysgol uwchradd i brifysgol
- ★ Trosglwyddo o ddosbarth i ddosbarth